# PROFFESIYNAU PERTHYNOL I IECHYD YNG NGHYMRU – Y DAITH DRAWSNEWID

**Y daith drawsnewid i wasanaethau sydd wedi'u hintegreiddio'n dda, wedi'u gwreiddio yn y gymuned, gyda'r ystod lawn o lefelau ymarferwyr a set sgiliau wedi eu hoptimeiddio'n ddarbodus.**

RHAGLEN STRATEGOL AR GYFER GOFAL SYLFAENOL

## MAN CYCHWYN

### GWASANAETHAU SY'N CANOLBWYNTIO AR ANGEN Y BOBLOGAETH



**Cynorthwyodd GPPI i lunio'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru - y dull y cytunwyd arno'n genedlaethol i wireddu uchelgais "Cymru Iachach" wrth ail-fantoli'r system iechyd a gofal.**

**Mae hyn yn newid pwyslais gofal o fod yn canolbwyntio ar yr ysbyty i ddull gofal cydweithredol sy'n seiliedig ar leoedd gyda gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar angen y boblogaeth:**

- **Timau amlbroffesiynol yn gweithio ar lefel clwstwr.**
- **Systemau diogel ac effeithiol i gyfeirio pobl at y gofal iawn yn y lle iawn ac ar yr adeg iawn.**
- **Gwaith tîm integredig sy'n sicrhau dull cyfannol o ddarparu gofal.**
- **Gwasanaethau 24/7 di-dor.**

"Mae gennym ni rywfaint o gyllid i gefnogi trawsnewidiad GPPI... Mae gennym ni ein huchelgais... Mae gennym ni le wrth y bwrdd, mae gennym ni lais - gadewch i ni ei ddefnyddio!"




Allwedd Rhyngweithiol: Cliciwch ar y rhain i gael gafael ar wybodaeth ychwanegol

## YMATEB


### FFRAMWAITH

**Fframwaith GPPI; yr ymateb Strategol i "Cymru Iachach"** sy'n nodi 6 egwyddor craidd ar gyfer trawsnewid.

1. Ysbrydoli a galluogi pobl i fyw bywydau iachach
2. Meithrin cadernid yn y boblogaeth
3. Hygyrchedd ac ymatebolrwydd
4. Hunaniaeth a phresenoldeb cryf
5. Arweinyddiaeth weladwy a thrawsnewidiol
6. Gweithio ar frig eu trwydded broffesiynol




- Mae angen defnyddio GPPIau a nodwyd yn fwy effeithiol i ysbrydoli a galluogi pobl i fyw bywydau iachach, bod yn haws eu cyrraedd yn uniongyrchol, ac yn gweithio ar frig eu gallu gydag arweinyddiaeth weladwy a thrawsnewidiol. Gyda "gofal sylfaenol cryf wrth wraidd popeth a wnawn"
- Sicrhau cynifer o gyfleoedd i GPPIau effeithio ar leihau anghydraddoldebau iechyd a datblygu dulliau o weithredu iechyd cyhoeddus y boblogaeth i gefnogi dewis ffordd iach o fyw a datblygu cadernid.





### EGWYDDORION TREFNU

**Egwyddorion trefnu Gweithlu GPPI Gofal Sylfaenol a Chymunedol** – i optimeiddio defnydd a chyflawni uchelgais GPPI.



- Model Gofal sy'n Seiliedig ar Leoedd GPPI
- Sicrhau Gwerth Mwyaf Posibl GPPIau
- Mynediad Uniongyrchol
- Gweithio Amlbroffesiynol
- Arweinyddiaeth




**GPPIau wedi'u rheoleiddio gan CPIG yng Nghymru:**

- Therapyddion Celf • Therapyddion Cerdd • Therapyddion Drama
- Deietegwyr • Therapyddion Galwedigaethol • Orthropyddion
- Orthosystau • Parafeddygon
- Ffisiotherapyddion • Seicolegwyr Ymarferwyr • Podiatryddion
- Prosthetyddion • Therapyddion Iaith a Lleferydd

### MECANWAITH

**Datblygu Clwstwr Carlam, Seilwaith Cymunedol a Chydweithrediadau Proffesiynol GPPI – yn rhoi'r mecanwaith i gyflawni uchelgais GPPI.**

Rhoi llais i GPPIau o gwmpas y bwrdd, ar bob lefel o weithredu daearyddol, gan lunio atebion lleol ar gyfer anghenion poblogaeth wedi eu seilio ar eu gwybodaeth fanwl a'u harbenigedd.




**Bydd Cydweithrediadau Proffesiynol GPPI yn:**

- Galluogi GPPIau ar draws timau, gwasanaethau a sefydliadau o fewn ardal ddynodedig, i ddod ynghyd.
- Arweinydd(ion) GPPI lleol enwebedig i gynrychioli Cydweithrediad Proffesiynol GPPI yn y Clwstwr ac mewn Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr.
- Rhoi eglurder ynghylch y cynnig GPPI sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a dangos gwerth ac effaith.
- Rhoi egwyddorion trefnu gweithlu GPPI ar waith.
- Edrych ar y gweithlu GPPI cyfan o safbwynt arweinyddiaeth GPPI gydweithredol.
- Hysbysu a chefnogi cynllunio i ddiwallu anghenion y boblogaeth a blaenoriaethau rhanbarthol, gan sicrhau hygyrchedd a defnydd effeithiol o set sgiliau GPPI.
- Nodi bylchau a gofynion wedi eu seilio ar gynllunio gweithlu system gyfan sydd wedi ei integreiddio'n dda.
- Creu modelau cyflawni cynaliadwy sy'n cefnogi rhanddeiliaid lluosog.
- Darparu'r gwasanaethau gwerth uchel o ansawdd uchel sydd eu hangen i roi cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, o fewn model gofal sy'n seiliedig ar leoedd.
- Ymateb i fwriad strategol cenedlaethol.
- Ymateb i gyfleoedd ariannu perthnasol.

### BUDDSODDIAD

**Cyllid rheolaidd i gefnogi trawsnewid a chefnogi cyflawni uchelgais GPPI. Gan ganolbwyntio ar y canlyniadau hyn:**

- **Cyflawni newid sylweddol hirdymor** sy'n cynyddu gallu GPPIau ar lefel leol, fel rhan annatod o iechyd a gofal cymunedol.
- **Y defnydd gorau o set sgiliau y GPPIau** i gyd, ar gyfer pob oedran, ac anghenion iechyd corfforol a meddyliol.
- **Mae cyfran uwch o wasanaethau GPPI** ar gael drwy weithio amlbroffesiynol integredig, gyda'r holl randdeiliaid, gan gefnogi model gofal sy'n seiliedig ar gryfderau.
- Amserlennu **adnoddau mewn modd hyblyg** i gefnogi gwasanaethau camu-i-fyny (ataliol) a chamu i lawr (adfer) h.y. cynyddu capasiti gwasanaethau hybu iechyd GPPI gan gynnwys ymyriadau ataliol ac o fath adsefydlu i leihau derbyniad diangen i'r ysbyty a sicrhau'r canlyniadau triniaeth a gynlluniwyd gorau, gan wireddu potensial gorau unigolyn.
- **Cynyddu capasiti adsefydlu / ail-alluogi / gofal canolraddol** er mwyn sicrhau'r adferiad cynaliadwy mwyaf posibl i bobl a chyflymu'r broses o ryddhau cleifion.
- **Ehangu mynediad uniongyrchol at wasanaethau** cymunedol, gan ystyried oriau a fformat darparu gwasanaethau, megis oriau hirach, ymateb brys, darpariaeth rithwir a wyneb yn wyneb.



©Scarlet Design Int. Ltd. 2023